WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

## Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd**: Rhagfyr 2011
**Cyfeirnod y ddogfen**: 644A2011

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan John Herniman, Dave Thomas a Claire Worrall ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.


Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 7 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd o dan bwysau ariannol sylweddol a bydd angen ymdrech fawr arall er mwyn unioni'r diffyg o £6 miliwn a ragwelir ar hyn o bryd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12 | 11 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010, ond mae angen camau gweithredu pellach mewn rhai meysydd allweddol | 12 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan fy ngwaith ynglŷn â theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd | 14 |
| Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes | 15 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 22 |
| Ffi archwilio | 24 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2011.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys camddatganiad nas cywirwyd sy'n ymwneud â chroniad cyfalaf o £120,138 a oedd eisoes wedi'i dalu, yr angen i sicrhau y caiff y gofrestr o asedau ei diweddaru a'i chysoni mewn ymarfer dilysu ffisegol llawn a hefyd sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar daliadau yn y sector cyhoeddus.
6. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol digonol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad.
7. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2010-11. Y targed arbedion ar gyfer 2010-11 oedd £78.6 miliwn a mantolwyd y gyllideb drwy gyfuniad o arbedion sydd wedi rhyddhau bron i £50 miliwn a £28.7 miliwn o arian anghylchol gan Lywodraeth Cymru a roddwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2010.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau

archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd o dan bwysau ariannol sylweddol a bydd angen ymdrech fawr arall er mwyn unioni'r diffyg o £6 miliwn a ragwelir ar hyn o bryd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010, ond mae angen camau gweithredu pellach mewn rhai meysydd allweddol;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn fy ngwaith ynglŷn â theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd;
- cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol, ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Rhagfyr a chaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2012. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

11. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Tachwedd 2011.

12. Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
    - **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
    - **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
    - **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

13. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
    - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
    - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
    - hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
    - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
    - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
    - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

14. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

15. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
    - archwilio cyfrifon;
    - trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

16. Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**21.** Daeth y datganiadau ariannol i law mewn modd amserol erbyn y terfyn amser sef 4 Mai 2011 ac fe'u hadolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 9 Mai. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi i safon dderbyniol a chawsant eu hategu gan bapurau gwaith ar y cyfan. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol gan fod yr amserlen

a bennwyd gan Lywodraeth Cymru eleni wedi golygu bod llai o amser i lunio ac archwilio'r cyfrifon, gan roi cryn dipyn o bwysau ychwanegol ar y tîm cyllid.

**22.** Fodd bynnag, gellir gwneud gwelliannau pellach y flwyddyn nesaf mewn nifer o feysydd, gan gynnwys: rheoli ansawdd y cyfrifon drafft; amseroldeb papurau gwaith a'u safoni; cysoniadau allweddol â chofnodion sylfaenol a sicrhau bod yr Adran Adnoddau Dynol a Chyflogres yn darparu gwybodaeth gywir yn amserol. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â staff cyllid er mwyn sicrhau y gallwn ddatblygu ac atgyfnerthu gweithdrefnau, ac rydym wedi cynnal gweithdai Dysgu Ôl-brosiect ar y cyd ac wedi defnyddio'r canlyniadau i lywio ein cyfarfodydd cynllunio ar y cyd cynnar a drefnwyd i baratoi ar gyfer 2011-12. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau'r gweithdy a'r gwaith cynllunio cynnar i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2011.

**23.** O dan ISA 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 3 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Mae croniadau cyfalaf wedi cael eu gorddatgan o £120,138 mewn perthynas â gwaith cyfalaf y talwyd amdano eisoes. Felly roedd cyflawniad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf yn nodyn 2.2 wedi'i gam-ddatgan a dylai ddangos tanwariant o £131,000. Ystyriwyd hyn gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd a phenderfynwyd peidio ag addasu'r cyfrifon, gan nad oedd y gwall yn berthnasol i gyflawni'r terfyn adnoddau. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Cafodd nifer o gamddatganiadau eu cywiro gan reolwyr, a gwnaed nifer o newidiadau eraill i ddatgeliadau er mwyn gwella'r ffordd y câi'r cyfrifon eu cyflwyno a chywiro ffigurau anghywir. O wneud y newidiadau hyn cafodd y gwarged a gofnodwyd ar y datganiadau ariannol drafft cyntaf ei leihau o £154,000 i tua £43,000. |
| Dadgydnabod asedau | Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 16, pan gaiff rhannau o asedau eu newid, mae angen didynnu unrhyw werth sy'n weddill mewn perthynas â'r asedau a newidiwyd o werthoedd yr eiddo (dadgydnabod) ac mae angen cydnabod unrhyw ennill neu golled yn y cyfrif refeniw. Roedd hwn yn ofyniad newydd o 2009-10 ymlaen. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd, nac unrhyw gyrff eraill GIG Cymru, systemau ar waith i nodi'r cyfryw werthoedd fel mater o drefn. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| Dilysu asedau sefydlog | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei weithdrefnau ar gyfer rheoli asedau sefydlog ac mae'r ymarfer cylchlythyru a gwblhawyd yn 2010-11 yn sail ddefnyddiol ar gyfer cyflwyno'r feddalwedd gyfrifyddu newydd i helpu i gyfrif am Offer, Eiddo a Chyfarpar yn 2011-12. Fodd bynnag, erbyn hyn mae angen i'r Bwrdd sicrhau y caiff y gofrestr o asedau ei diweddaru a'i chysoni mewn ymarfer dilysu ffisegol llawn. |
| Hawliadau gofal iechyd parhaus | Cyfyngedig fu'r cynnydd o ran asesu hawliadau gofal iechyd parhaus ledled Cymru. Adolygwyd seiliau'r amcangyfrifon ar gyfer darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn ar gyfer costau hawliadau Gofal Iechyd Parhaus ac rydym yn fodlon bod seiliau'r amcangyfrifon yn rhesymol. Roedd lefel y darpariaethau yn y cyfrifon yn gyson â'r sefyllfa mewn sefydliadau iechyd cyffelyb yng Nghymru.<br>BILI Powys sy'n gyfrifol erbyn hyn am asesu pob hawliad a ddaeth i law cyn mis Awst 2010 a dylai gwybodaeth fanylach am dueddiadau fod ar gael i lywio a mireinio amcangyfrif y Bwrdd Iechyd yn 2011-12. |
| Polisi taliadau'r sector cyhoeddus | Er i'r Bwrdd nodi bod 97.3 y cant o gredydwyr nad ydynt yn rhai'r GIG wedi'u talu o fewn 30 diwrnod, gall y ffordd y triniwyd anfonebau arwain at gam-ddatgan y perfformiad hwn. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc' o ran talu anfonebau yn seiliedig ar ddyddiad yr anfoneb neu'r dyddiad y derbyniwyd y nwyddau os yw hwnnw'n ddiweddarach. Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r cloc ddechrau pan fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn yr anfoneb. Hefyd, o ran anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, mae'r Bwrdd Iechyd yn stopio'r cloc cyn gynted ag y bo anghydfod yn codi. Ni chaiff y cloc ei ailddechrau wedyn unwaith bod yr anghydfod wedi'i ddatrys, ac mae hynny'n groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Felly bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith yn 2011-12, ynghyd â Byrddau Iechyd eraill, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru. |

**24.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2011, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn. Fodd bynnag, er nad wyf yn ymdrin â hynny yn fy marn archwilio, nid oedd cynnwys yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

25. Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd a Ddelir o dan Ymddiried yn cael ei gwblhau a chyflwynais fy adroddiad i'r Ymddiriedolwr ym mis Hydref 2011. Tynnais sylw'r Ymddiriedolwr at sawl mater o ran ansawdd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella gweithdrefnau llunio cyfrifon yr Elusen yn y dyfodol, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u derbyn.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol digonol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

26. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd. At hynny, rhoddodd 'Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol' y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 'sicrwydd digonol' i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r farn hon yn adlewyrchu system rheolaeth fewnol sy'n gadarn ar y cyfan ac sydd â chydymffurfiaeth weithredol yn gyffredinol, ond gyda rhai gwendidau o ran cynllunio a chymhwyso rheolaethau a allai beri risg o ran cyflawni amcanion system penodol. Un maes sy'n achosi pryder penodol yw rheoli Offer, eiddo a chyfarpar y cyfeiriwyd ato yn Arddangosyn 1.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt

27. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2011. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod.

28. Yn ogystal, nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt o hyd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn atgyfnerthu'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i gyllid anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac arbedion sy'n rhyddhau arian parod

29. Cyflawnodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ei dargedau statudol ar gyfer 2010-11, ond dibynnai hyn ar sicrhau rhaglen arbedion sylweddol o £50 miliwn a chael £28.7 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer pwysau a nodwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd yr heriau ariannol sylweddol yn parhau yn 2011-12, gyda phwysau costau o tua £73 miliwn. Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol pob bwrdd iechyd yng Nghymru fel rhan o'm rhaglen waith ar gyfer 2011-12.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**30.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennym yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd;
- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei drefniadau i ymgysylltu'n effeithiol ag uwch glinigwyr;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau data o safon dda;
- ystyried perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn sgîl gwaith archwilio blaenorol ar Wasanaethau Mamolaeth, y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau, Gofal heb ei Drefnu, Gwasanaethau Cleifion Allanol, Trefniadau Caffael a Gwireddu Buddiannau yn sgîl gweithredu Contract y Meddygon Ymgynghorol.

**31.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd o dan bwysau ariannol sylweddol a bydd angen ymdrech fawr arall er mwyn unioni'r diffyg o £6 miliwn a ragwelir ar hyn o bryd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12

**32.** Yn fy adroddiad, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011, nodais fod y GIG yng Nghymru yn wynebu'r setliad ariannol llymaf yn y DU, pwysau costau cynyddol a bwlch ariannu sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a thu hwnt. Yn wahanol i rannau eraill o'r DU, mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu toriadau ariannol mewn termau real os cymeradwyir cynigion cyllidebol presennol Llywodraeth Cymru.

33. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Bwrdd Iechyd o dan y pwysau ariannol mwyaf a welodd erioed yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau costau o £73 miliwn er mwyn cyflawni balans ariannol ar ddiwedd mis Mawrth 2012, a hynny ar ben y £50 miliwn o arbedion a sicrhawyd yn 2010-11.

34. Er gwaethaf y ffaith ei fod yn gweithredu cynllun arbedion ac osgoi costau gwerth tua £52 miliwn, bod nifer o gamau gweithredu yn cael eu cymryd drwy'r sefydliad cyfan i wella costau, ac iddo dderbyn £18 miliwn yn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd ganddo ddiffyg o £6 miliwn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

35. Un ffactor pwysig sy'n rhwystro'r Bwrdd Iechyd rhag cau'r bwlch ariannol yw'r ffaith nad yw wedi llwyddo i leihau costau'r gweithlu yn ôl y rhagamcan, o ran y gweithlu craidd a thâl amrywiadwy.

36. Er gwaethaf ymdrech fawr, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fethu â chyflawni'r arbedion cyffredinol a nodwyd ganddo o'r rhaglen o gynlluniau gwella costau a roddwyd ar waith ganddo. Erbyn diwedd mis Hydref 2011, roedd wedi sicrhau £25 miliwn o arbedion yn erbyn
targed o £30 miliwn, ac mae'n amlwg y bydd angen ymdrech fawr arall er mwyn adfer y sefyllfa ariannol erbyn diwedd mis Mawrth 2012.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010, ond mae angen camau gweithredu pellach mewn rhai meysydd allweddol

37. Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd nodais fod angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu agweddau penodol ar ei drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol a'u datblygu ymhellach. Eleni rwyf wedi adolygu'r cynnydd a wnaed. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu ond mae angen camau gweithredu pellach mewn rhai meysydd allweddol

38. Mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ac maent wedi cael eu hatgyfnerthu drwy:

- ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid allanol er mwyn datblygu cynlluniau strategol ar gyfer y gymuned iechyd, fel y dengys y gwaith ar Eiddilwch, a chydberthnasau adeiladol â'r Cyngor Iechyd Cymuned a chyda'r undebau llafur drwy'r Fforwm Partneriaeth hwnnw;
- gwaith i ddatblygu fframwaith cynllunio sy'n nodi'r cydberthnasau rhwng y gwahanol weithgareddau cynllunio ac allbynnau y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â hwy;

- mwy o ffocws ar nodi dulliau mesur canlyniadau, fel y dengys datblygiad y Rhaglen Eiddilwch a'r newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â chreu Ysbyty Aneurin Bevan;
- ymgymryd â gwaith i sicrhau bod archwilio clinigol yn rhan fwy sylfaenol o fframwaith sicrwydd y Bwrdd;
- datblygu ffyrdd o reoli risg, gyda gwell gwybodaeth i aelodau'r Bwrdd ynglŷn â natur a maint y risgiau corfforaethol y cytunwyd arnynt, wedi'i hategu gan 'gymuned ymarfer', gweithdy rheoli risg i'r Bwrdd a hwyluswyd gan arbenigwyr a strategaeth rheoli risg ddiwygiedig;
- gwelliannau i fformat adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd, ac yn fwy cyffredinol drwy ddarparu gwell gwybodaeth am reoli perfformiad i reolwyr a chlinigwyr.

**39.** Ceir meysydd hefyd lle mae angen datblygiadau pellach. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- rhoi mwy o amlygrwydd i'r Datganiad am Reolaeth Fewnol o fewn y sefydliad a sicrhau ei fod yn rhan fwy sylfaenol o fframwaith sicrwydd y Bwrdd;
- parhau i ddatblygu'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli risg er mwyn sicrhau y caiff risgiau corfforaethol eu hystyried yn y pwyllgorau perthnasol fel mater o drefn ac na fydd unrhyw ymgais i gynyddu'r 'deg risg fwyaf' a ystyrir gan y Bwrdd yn effeithio'n andwyol ar ei allu i ganolbwyntio o ddifrif ar y risgiau mwyaf dybryd;
- parhau i ddatblygu fformat yr adroddiadau ar berfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd er mwyn sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o gymariaethau meincnodi â chyrff eraill yn y GIG a rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd fod y camau gweithredu a nodwyd i sicrhau gwelliant yn cael yr effaith a ddymunir.

**40.** Yn ystod 2011 diwygiodd y Bwrdd Iechyd strwythur ei is-bwyllgorau, gan ddirwyn ei Bwyllgor Llywodraethu a Sicrwydd i ben a chreu Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chynaliadwyedd newydd yn ogystal â Phwyllgor Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau. Mae'n rhy gynnar i werthuso a yw'r newidiadau hyn wedi atgyfnerthu'r cynllun dirprwyo cyffredinol. Yn fwy cyffredinol, ochr yn ochr â'r newidiadau i strwythur y pwyllgorau mae angen eglurder ynghylch rôl pob pwyllgor a'i berthynas â'r pwyllgorau eraill. Mae angen hefyd ganolbwyntio ar sicrhau bod agendau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn hydrin er mwyn hwyluso gwaith craffu ac adolygu â manylder priodol.

**41.** Nodir hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei strwythur yn yr ardal leol yn sgil creu 12 Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth newydd. Dylai'r datblygiadau hyn helpu'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gennyf y llynedd o ran integreiddio gwaith yn yr ardal leol â gwaith mewn isadrannau a chyfarwyddiaethau eraill.

### Gwelir tystiolaeth o gynnydd mewn nifer o'r swyddogaethau sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

**42.** Ystyriodd fy ngwaith y cynnydd sydd wedi'i wneud ym meysydd cynllunio'r gweithlu, rheoli ystadau'n strategol a chysoni blaenoriaethau cynllunio ar draws iechyd a llywodraeth leol. Mae'r gwaith hwn wedi dangos:

- bod gwaith cynllunio'r gweithlu wedi parhau i ddatblygu o fewn y Bwrdd Iechyd, wedi'i ategu gan waith cynllunio senarios ac ymarferion efelychu, a datblygu llwybrau critigol ar gyfer newidiadau staffio, targedau'r gweithlu a dulliau mesur canlyniadau;
- bod mwy o sicrwydd bellach ynglŷn â chreu'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol arfaethedig ac yn sgil hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu bod yn fwy penodol ynglŷn â rheoli'r ystâd yn strategol;
- bod dau ddatblygiad sylweddol ar ffurf Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Aneurin Bevan wedi cael eu cyflawni fel rhan o'r rhaglen dreigl o ad-drefnu'r ystâd, sydd hefyd wedi arwain at waredu rhannau o'r ystâd nad oes eu hangen mwyach;
- bod cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu trefniadau cynllunio integredig ag Awdurdodau Lleol ymhellach, i bob golwg drwy sefydlu'r Rhaglen Eiddilwch fel menter allweddol drwy'r gymuned iechyd gyfan.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan fy ngwaith ynglŷn â theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd

**43.** Fel rhan o'm gwaith i bennu lle y gall y Bwrdd Iechyd gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd. Cymharodd y gwaith hwn berfformiad â sampl o ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Cyflwynwyd adroddiad ar y canfyddiadau i'r Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2011.

**44.** Dangosodd y gwaith, er bod nifer o fentrau ar waith i wella'r ffordd y defnyddir theatrau llawdriniaethau, fod angen gweithredu'n gyflymach ac mewn ffordd fwy cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r perfformiad cymharol wael a'r pryderon a godwyd gan y staff. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- roedd cyfuniad o ffactorau yn arwain at ddefnydd gwael o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau achosion dydd isel yn y Bwrdd Iechyd;
- er bod mentrau ar waith i wella perfformiad theatrau llawdriniaethau, roedd cynnydd yn cael ei lesteirio gan rai trefniadau cynllunio digyswllt;
- nododd yr archwiliad fod angen mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan staff theatr fel mater o frys o ran cyfathrebu, morâl a chanfyddiadau negyddol o reolwyr;
- er bod gan y Bwrdd Iechyd systemau gwybodaeth da ynglŷn â theatrau llawdriniaethau, mae angen atgyfnerthu sut y rheolir perfformiad mewn perthynas â hwy.

**45.** Tynnodd yr archwiliad sylw at nifer o faterion penodol yr oedd angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â hwy, yn benodol:

- lleihau faint o amser a gollwyd o ganlyniad i ganslo sesiynau, y gellid yn aml ei briodoli i broblemau o ran rheoli absenoldeb staff;

- roedd sesiynau llawdriniaeth orthopedig dros y penwythnos yn cael eu hariannu er bod y theatrau yn wag ar benwythnosau yn ogystal â sesiynau wedi'u canslo yn ystod yr wythnos waith;
- sicrhau bod digon o anesthetyddion ar gael i redeg rhestrau a drefnwyd;
- safoni prosesu asesu cyn llawdriniaeth drwy'r Bwrdd Iechyd cyfan;
- sicrhau bod digon o staff a gwelyau i gynnal cynnydd cadarnhaol mewn 'derbyniadau llawdriniaeth ddydd';
- atgyfnerthu trefniadau rhestru ar gyfer rhestrau theatrau llawdriniaethau.

**46.** Ers i'r archwiliad gael ei gwblhau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd o'r rhaglen genedlaethol, Trawsnewid Theatrau, i helpu i lunio ac ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol o ran perfformiad theatrau. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod am gynnydd cadarnhaol o ran y fenter hon. Ochr yn ochr â hyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfres o gamau gweithredu penodol i helpu i fynd i'r afael â'r argymhellion a ddeilliodd o'm gwaith archwilio. Gyda'i gilydd, mae hwn yn ymateb cadarnhaol ar ran y Bwrdd Iechyd i wella ei berfformiad o ran theatrau llawdriniaethau. Bydd gwaith archwilio dilynol yn 2012 yn ystyried i ba raddau mae'r gwelliannau a nodwyd wedi cael eu sicrhau.

## Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn nifer o adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol ond mae angen gwneud cynnydd pellach mewn sawl maes

**47.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle y darperir gwasanaethau. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 3.

### Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwasanaethau cleifion allanol | Yn 2009, nododd fy adolygiad o wasanaethau cleifion allanol yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent gynt fod gwendidau sylweddol yn y ffordd y cafodd y gwasanaethau hyn eu rheoli'n gyffredinol, a bod nifer o broblemau penodol o ran y ffordd yr oedd y prosiect trefnu apwyntiadau ac atgyfeirio newydd wedi cael ei gynllunio.<br>Rwyf wedi ymgymryd â gwaith i asesu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn 2009. Dengys y gwaith hwn fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â llawer o'r materion gweithredol a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol. Yn benodol, gwelwyd tystiolaeth bod y trefniadau rheoli ar gyfer cleifion allanol wedi cael eu hatgyfnerthu a bod prosesau trefnu apwyntiadau cleifion allanol wedi cael eu gwella.<br>Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o hyd i atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad a mynd i'r afael â phroblemau cyson megis cyfraddau uchel o ran cleifion yn colli apwyntiadau a chlinigau wedi'u canslo mewn rhai arbenigeddau. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
| --- | --- |
| Trefniadau caffael | Yn 2009 adolygais drefniadau caffael yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent gynt, a thynnais sylw at nifer o wendidau sylfaenol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy fel mater o frys fel rhan o'r broses o greu'r Bwrdd Iechyd newydd.<br>Yn ystod 2011, gwneuthum waith dilynol i adolygu'r cynnydd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud o ran datblygu ei drefniadau caffael.<br>Roedd y gwaith hwn yn cyd-daro â'r penderfyniad cenedlaethol i gynnwys caffael fel rhan o'r trefniadau Cydwasanaethau newydd o fewn GIG Cymru. Felly mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud penderfyniad ymarferol i ohirio cynlluniau i ddatblygu strategaeth gaffael leol nes bod mwy o eglurder ynglŷn â sut y bwriedir datblygu cydwasanaethau mewn perthynas â chaffael.<br>Er gwaethaf yr oedi dros dro mewn cynllunio strategol, roedd fy ngwaith archwilio dilynol yn gallu nodi nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn nhrefniadau caffael gweithredol y Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ym maes caffael wedi cael eu hatgyfnerthu ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ffyrdd o wella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â staff clinigol a staff anghlinigol. Mae'r gwaith o gyflwyno Oracle wedi mynd rhagddo ac mae arbedion caffael a dargedwyd wedi cael eu sicrhau gyda thargedau ymestyn ychwanegol yn cael eu nodi.<br>Mae creu Bwrdd Caffael Clinigol a Bwrdd Caffael Gweithredol Anghlinigol yn ddatblygiadau cadarnhaol, ond mentrau cymharol ddiweddar yw'r rhain a bu presenoldeb aelodau yn y cyntaf yn wael.<br>Rhagwelir y bydd y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ac yn monitro perfformiad yn cael ei hatgyfnerthu drwy waith y ddau Fwrdd Caffael. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad nid oedd y Byrddau wedi llwyddo i ddatblygu'r trefniadau hyn ryw lawer eto. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
| --- | --- |
| Gwaith dilynol ar Gadernid TGCh - Adfer ar ôl Argyfwng/Parhad Busnes a Systemau Gweinyddu Cleifion newydd | Yn 2009, tynnais sylw rhagflaenydd y Bwrdd Iechyd presennol sef Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, at nifer o bryderon ynglŷn â threfniadau Adfer ar ôl Argyfwng a Pharhad Busnes mewn cysylltiad â TGCh. Rwyf wedi adolygu'r cynnydd a wnaed o ran ymdrin â'r pryderon hyn ac rwyf wedi canfod, er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ar fy holl argymhellion ei fod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da o ran atgyfnerthu ei drefniadau Adfer ar ôl Argyfwng / Parhad Busnes.<br>Drwy greu ail ystafell gyfrifiadurol yn Ysbyty Aneurin Bevan mae'r risg o golli gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg o ganlyniad i fethiannau yn y brif ystafell gyfrifiadurol ym Mharc Mamheilad wedi cael ei lleihau. Mae trefniadau wrth gefn a threfniadau storio wedi cael eu gwella ac mae llawer o waith wedi cael ei wneud i sicrhau bod cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer adfer ar ôl argyfwng bellach ar waith.<br>Fodd bynnag, ar gam cynnar y mae'r gwaith cynllunio Parhad Busnes o hyd ac mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Hefyd, mae'r pryderon ynglŷn â'r brif ystafell gyfrifiadurol ym Mharc Mamheilad a nodwyd gynt o ran amgylchedd a diogelwch yn parhau i fodoli yn yr ystyr bod llwybr dianc rhag tân yn mynd drwy'r ystafell gyfrifiadurol.<br>Rwyf hefyd wedi adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu system Myrddin fel System Gweinyddu Cleifion newydd. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli'n dda y broses o weithredu'r system newydd. Fodd bynnag, mae'r dyddiad 'byw' ar gyfer y system newydd wedi cael ei ohirio ddwywaith yn bennaf oherwydd anawsterau i greu rhyngwynebau trosglwyddo data rhwng systemau clinigol presennol y Bwrdd Iechyd a System Gweinyddu Cleifion newydd Merlin. Aeth y system newydd yn fyw o'r diwedd ar 28 Tachwedd 2011, yn unol â'r amserlen ddiwygiedig. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau | Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddais adroddiad Cymru gyfan ar gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau dan hyfforddiant. Nododd yr adroddiad y byddai'r targed o wythnos waith 48 awr yn annhebygol o gael ei gyflawni ym mhob rhan o GIG Cymru erbyn y terfyn amser ym mis Awst 2009.<br>O ganlyniad cafodd rhanddirymiadau o'r targed eu cyflwyno ar gyfer rotâu penodol. Yn y Bwrdd Iechyd roedd y rhanddirymiadau hyn yn berthnasol i dair rota ym maes pediatreg.<br>Rwyf wedi ymgymryd â gwaith dilynol i weld a yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynnal cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer meddygon iau, a lle y bo angen sicrhau cydymffurfiaeth â hi.<br>Canfu'r gwaith archwilio dilynol fod cynnydd da wedi'i wneud i sicrhau bod rotâu sy'n cydymffurfio ar waith ond mai dim ond drwy weithredu cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau hirdymor y bydd modd sicrhau modelau staffio meddygol gwirioneddol gynaliadwy.<br>Yn y cyfamser mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod y trefniadau Ysbytai Liw Nos cyfredol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn cael eu gwella a bod cydymffurfiaeth a'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a'i goblygiadau yn cael mwy o flaenoriaeth mewn adroddiadau i'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu meddygol. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gofal heb ei Drefnu (Gwaith Dilynol Rhagarweiniol) | Rwyf wrthi'n gwneud gwaith ar wasanaethau gofal heb ei drefnu, fel rhan o adolygiad ehangach sydd hefyd yn ystyried y ffordd y rheolir cyflyrau cronig. Yn gynharach yn ystod y flwyddyn, gwneuthum rywfaint o waith rhagarweiniol ar ofal heb ei drefnu a rheoli atgyfeiriadau er mwyn llywio'r adolygiad cyfredol.<br>Dangosodd yr adolygiad rhagarweiniol fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i weld cryn alw am wasanaethau gofal heb ei drefnu, yn enwedig drwy dderbyniadau brys.<br>Roedd nifer o gamau gweithredu yn cael eu cymryd i wella perfformiad y system gofal heb ei drefnu a gwelwyd arwyddion bod cynnydd yn cael ei wneud i atal derbyniadau y gellid eu hosgoi a rheoli cleifion yn fwy effeithiol ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.<br>Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod angen sicrhau gwelliannau pellach ac awgrymodd ein gwaith rhagarweiniol fod angen mynd ati mewn ffordd fwy pendant i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.<br>Rwyf yn adolygu i ba raddau y mae'r gwelliannau yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd a byddaf yn cyflwyno'r canfyddiadau o'm hadolygiad manylach i'r Bwrdd Iechyd yn rhan gyntaf 2012. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwireddu Buddiannau Contract y Meddygon Ymgynghorol | Ym mis Ionawr 2011 cyflwynais adroddiad i'r Bwrdd Iechyd a oedd yn adolygu i ba raddau roedd buddiannau contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu gwireddu. Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad, ac eithrio nifer fach o arbenigeddau, nad oedd y Bwrdd Iechyd na'i feddygon ymgynghorol yn gweld yr holl fuddiannau bwriadedig. Gellid priodoli'r methiant i sicrhau'r buddiannau bwriadedig yn bennaf i drefniadau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol annatblygedig y Bwrdd Iechyd.<br>O ystyried y pryderon a nodwyd yn fy adroddiad ym mis Ionawr, rwyf wedi ymgymryd â gwaith dilynol cynnar i weld a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu a grëwyd mewn ymateb i'm hargymhellion ar waith.<br>Canfu'r gwaith dilynol hwn fod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i atgyfnerthu gwaith cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, yn enwedig drwy lunio canllawiau cynhwysfawr ar gynllunio swyddi a chreu templed i lywio trafodaethau ar ddulliau o fesur canlyniadau gwaith cynllunio swyddi. Mae rhaglen sefydlu newydd i feddygon ymgynghorol wedi cael ei datblygu hefyd ac mae rhaglenni ar gael i glinigwyr i ddatblygu eu sgiliau arwain a rheoli.<br>Asesodd y gwaith dilynol i ba raddau roedd y trefniadau newydd hyn wedi cael eu hymgorffori yng ngwaith y ddwy gyfarwyddiaeth - Anestheteg a Thrawma ac Orthopedeg. Er bod tystiolaeth glir bod trefniadau cynllunio swyddi yn y cyfarwyddiaethau hyn yn cael eu hatgyfnerthu, nodwyd bod angen ymagwedd gorfforaethol gadarnach o ystyried:<br>• nad oedd y naill gyfarwyddiaeth na'r llall wedi defnyddio'r canllawiau ar gynllunio swyddi, naill ai am nad oeddent yn ymwybodol ohonynt neu am fod y cylch diweddaraf o gynllunio swyddi eisoes wedi dechrau pan gyhoeddwyd y canllawiau;<br>• nad oedd y naill na'r llall yn ymwybodol o'r rhaglen hyfforddiant a ddatblygwyd i helpu i roi'r canllawiau ar waith;<br>• bod angen gwneud rhagor o waith ar lunio asesiad sylfaenol o bob cynllun swyddi meddygon ymgynghorol a chreu cofrestr ganolog gywir o gynnwys cynlluniau swyddi. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA 260) | 7 Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 10 Mehefin 2011 |
| Dilysu Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 11 Awst 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno yn yr Adroddiad Blynyddol | 31 Awst 2011 |
| Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol i Reolwyr | 31 Awst 2011 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cyfrifon Cronfeydd Elusennol | Hydref 2011 |
| Barn ar Gyfrifon y Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Theatrau Llawdriniaethau a Llawdriniaethau Achosion Dydd | Mehefin 2011 |
| Gwaith dilynol ar Wasanaethau Cleifion Allanol | Mehefin 2011 |
| Asesiad Strwythuredig 2011(cyflwyniad) | Rhagfyr 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Drefniadau Caffael | Rhagfyr 2011 |
| Gwaith dilynol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd | Rhagfyr 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Wireddu Buddiannau Contract y Meddygon Ymgynghorol (drafft) | Rhagfyr 2011 |
| **Adroddiadau / gweithgareddau eraill** | |
| Protocol ar gyfer gweithio gydag Archwilwyr Mewnol (Deloitte) | Rhagfyr 2010 |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mawrth 2011 |
| Gweithdy llywodraethu gydag aelodau o'r Pwyllgor Archwilio | Mehefin 2011 |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 – Cyfrifon Cronfeydd Elusennol | Gorffennaf 2011 |

Mae hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith. Amcangyfrifwn y bydd yr holl waith archwilio perfformiad a nodwyd yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 ym mis Mawrth yn cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Cadernid TGCh | Rhagfyr 2011 |
| Gwaith Dilynol ar Wasanaethau Mamolaeth | Ionawr 2012 |
| Cymharu data staff wardiau | Ionawr 2012 |
| Rheoli Cyflyrau Cronig | Chwefror 2012 |
| Gofal heb ei Drefnu - Gwaith Dilynol Manwl | Chwefror 2012 |
| Ymgysylltu Clinigol | Chwefror 2012 |
| Ansawdd Data | Chwefror 2012 |
| Dadansoddiad yn ôl thema o'r materion sy'n deillio o waith archwilio perfformiad a wnaed gan y Bwrdd Iechyd | Chwefror 2012 |
| Eiddilwch Gwent | Mawrth 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 ffi archwilio arfaethedig o £453,916 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r amcangyfrif, ar y sail bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd. Hefyd ad-dalwyd cyfanswm o £19,740 i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â chynllun y flwyddyn flaenorol, a oedd yn ymwneud â'r gwaith dilynol a gaiff ei wneud yn y dyfodol.

| Prosiect | Cynlluniau ar gyfer datblygu gwaith |
|---|---|
| Gwaith dilynol ar Barhad Busnes / Adfer ar ôl Argyfwng mewn perthynas â TG a gweithredu System Gweinyddu Cleifion | Bwriedir gwneud y gwaith hwn o hyd ond caiff ei ariannu o ffi archwilio 2011. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae cynlluniau ar gyfer gwaith ar weithredu canllawiau Caldicott cenedlaethol wedi cael eu gohirio a chânt eu hystyried bellach fel rhan o'r ymarfer cynllunio ar gyfer ein rhaglen waith yn 2012. |
| Gwaith dilynol ar Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | Bwriadwyd defnyddio ychydig o amser yng nghynllun 2010 i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran materion a ddeilliodd o'r adroddiad cenedlaethol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn 2009 a oedd yn ymwneud yn benodol ag iechyd.<br>Fodd bynnag, o gwmpasu'r gwaith hwn, a siarad ag arolygiaethau eraill daeth yn amlwg y byddai'n well pe câi'r gwaith hwn ei wneud fel archwiliad cenedlaethol gan yr Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad, mae'r gwaith wedi cael ei ddileu o'r rhaglen archwilio perfformiad lleol ac mae'r ffi gysylltiedig wedi cael ei had-dalu. |
| Prosiect lleol ar ddiogelwch TG | Mae'r prosiect hwn wedi cael ei ganslo a chaiff materion sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch TG eu hystyried bellach fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer ein gwaith archwilio yn 2012, ochr yn ochr â gwaith posibl ar weithredu canllawiau Caldicott. |

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, codwyd ffi o £19,543 am y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk